


SGANDAL Y GWAED HEINTIEDIG



Y ddelwedd a ddarparwyd gan Mark Ward, Tainted Blood campaign

Yn ystod y 1970au, methodd Llywodraeth Prydain â sicrhau'r cyflenwad angenrheidiol o waed ar gyfer ymchwilio i hemoffilia a thrin y cyflwr. Felly, dechreuodd y Llywodraeth fewnforio cynhyrchion gwaed – o'r enw Ffactor VIII – o Unol Daleithiau America. Yn yr Unol Daleithiau, câi Ffactor VIII ei gynhyrchu trwy gyfuno gwaed nifer o wahanol roddwyr – nifer ohonynt yn rhoddwyr risg uchel. Yn y 1980au, parhaodd y GIG i ddefnyddio gwaed a roddwyd gan bobl ym morstaloedd a charchardai'r DU, a chan bersonél milwrol o'r Unol Daleithiau a oedd yn gweithio yn y DU.

Ym mis Mai 1983, rhoddwyd gwybod i weinidogion bod angen tynnu'n ôl yr holl gynhyrchion gwaed a gynhyrchwyd yn yr Unol Daleithiau ar ôl 1978. Ond parhaodd y GIG i ddefnyddio'r cynhyrchion a oedd ganddynt. Caniataodd Llywodraeth y DU yr arfer o ddefnyddio gwaed Ffactor VIII heintiedig at ddibenion ymchwil ar y gymuned hemoffilia tan ganol y 1980au.

O ganlyniad, rhwng y 1970au a dechrau'r 1990au, heintwyd mwy na 30,000 o gleifion y GIG gyda HIV a/neu hepatitis C. Cafodd bron pawb a oedd yn byw gyda hemoffilia – sef oddeutu 4,800 o bobl – eu heintio gyda hepatitis. Cafodd mwy na 1,200 ohonynt eu heintio hefyd gyda HIV; roedd 380 ohonynt yn blant.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
taintedblood.info

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Cafodd cleifion eu heintio'n ddistaw bach, cawsant eu monitro, ac ni roddwyd gwybod iddynt am y canlyniadau. Ni chafodd rhai ohonynt ddiagnosis am flynyddoedd lawer. Aeth Llywodraeth y DU ati'n fwriadol i ddinistrio cofnodion meddygol a dogfennau swyddogol yn ymwneud â diogelwch gwaed.

Yn yr Alban, methodd Gwasanaeth Trallwys Gwaed Cenedlaethol yr Alban â sgrinio rhoddwyr yn ddigonol, ac aethpwyd ati i ddefnyddio gwaed a roddwyd gan garcharorion – sef pobl y gwyddys eu bod yn wynebu risg uwch o ddioddef heintiau. Er bod yr Arolygiaeth Meddyginiaethau wedi rhoi rhybuddion ym 1983, parhaodd Gwasanaeth Trallwys Gwaed Cenedlaethol yr Alban i ddefnyddio gwaed heintiedig am ddwy flynedd arall. Amcangyfrifir bod 3,000 o bobl o blith y boblogaeth gyffredinol wedi cael eu heintio. Nid oedd Ymchwiliad Penrose, a ymchwiliodd i'r sgandal yn yr Alban, yn meddu ar rym i gymell tystion hollbwysig i roi tystiolaeth. Ystyriwyd bod ei adroddiad terfynol yn cuddio'r gwir.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Cafodd y niwed a wnaed ei ddwysáu gan ddiffyg gonestrwydd a thryloywder o du'r GIG a'r llywodraeth, nes peri i'r gwir gael ei gelu am ddegawdau”

Sir Brian Langstaff, Adroddiad yr Ymchwiliad Gwaed Heinti

“Cefais fy nefnyddio ar gyfer ymchwil anfoesegol, ymosodwyd arnaf, dioddefais niwed diwrthdro a chefais fy ngadael i farw. Dywedwyd celwyddau wrthyf, cefais fy anwybyddu a'm difrio, yn yr un modd â nifer o bobl eraill sydd wedi dioddef sgandalau dros yr hanner can mlynedd ddiwethaf”

Mark Ward, ymgyrchydd a ddioddefodd sgandal y gwaed heintiedig pan oedd yn blentyn